## ATODLEN 2

## DARPARIAETHAU CYSYLLTIEDIG MEWN PERTHYNAS Â'R COMISIYNWYR

### *Trafodion y Comisiynwyr a phwyllgorau*

**14.** Ni chaiff gweithredoedd a thrafodion y Comisiynwyr nac unrhyw bwyllgor o'r Comisiynwyr eu hannilysu gan unrhyw swydd wag yn eu mysg, na chan unrhyw ddiffyg ym mhenodiad, neu ddiffyg o ran cymhwystra ar gyfer penodiad, unrhyw berson fel Comisiynydd neu fel cadeirydd neu is-gadeirydd, y Comisiynwyr neu bwyllgor.

**15.** Y cworwm gofynnol ar gyfer cyfarfod o'r Comisiynwyr yw tri.

**16.**—(1) Os oes gan Gomisiynydd unrhyw fuddiant, uniongyrchol neu anuniongyrchol—

(a) mewn unrhyw gontract neu gontract arfaethedig y mae, neu y byddai'r Comisiynwyr yn barti ynddo, neu os yw'n gyfarwyddwr y cwmni neu'r corff y gwneir, neu y bwriedir gwneud, y contract gydag ef; neu

(b) mewn unrhyw fater arall y mae'r Comisiynwyr yn ymwneud ag ef,

rhaid i'r Comisiynydd ddatgan y buddiant hwnnw.

(2) Os yw Comisiynydd yn bresennol mewn cyfarfod o'r Comisiynwyr neu o unrhyw bwyllgor o'r Comisiynwyr lle y bwriedir ystyried contract neu fater arall y mae gan y Comisiynydd hwnnw fuddiant ynddo, rhaid i'r Comisiynydd—

(a) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cychwyn y cyfarfod hwnnw, ddatgelu'r buddiant hwnnw;

(b) peidio â phleidleisio ar unrhyw gwestiwn mewn perthynas â'r contract neu'r mater hwnnw; ac

(c) gadael y cyfarfod—

(i) ar unrhyw adeg, os yw'r Comisiynwyr sy'n bresennol, drwy benderfyniad, yn gofyn i'r Comisiynydd hwnnw wneud hynny; a

(ii) tra gwneir penderfyniad ar y contract neu'r mater hwnnw.

(3) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw fuddiant—

(a) sydd gan Gomisiynydd mewn perthynas â thalu ffioedd harbwr i'r Comisiynwyr;

(b) sy'n codi mewn perthynas â darparu gwasanaethau neu gyfleusterau harbwr sy'n effeithio ar y gymuned fasnachol yn gyffredinol;

(c) sydd gan Gomisiynydd fel cyflogai ymgymeriad cyfleustod cyhoeddus, neu fel cyfranddaliwr, ond nid cyfarwyddwr cwmni, oni bai bod y Comisiynydd yn dal mwy na phump y cant o gyfalaf cyfranddaliadau dyroddedig y cwmni hwnnw; neu

(ch) y mae'r Comisiynwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod yn datgan drwy benderfyniad ei fod yn rhy bellennig.

**17.** Bydd gan y person sy'n dal swydd fel is-gadeirydd ar y pryd holl bwerau'r cadeirydd, a chaiff arfer y pwerau hynny yn absenoldeb neu analluu'r cadeirydd.

**18.** Mewn unrhyw gyfarfod o'r Comisiynwyr, os na fydd y cadeirydd na'r is-gadeirydd yn bresennol, rhaid i'r Comisiynwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod ddewis un o'u nifer i fod yn gadeirydd y cyfarfod hwnnw.

**19.**—(1) Rhaid i bob cwestiwn mewn cyfarfod o'r Comisiynwyr, neu o bwyllgor o'r Comisiynwyr, gael ei benderfynu drwy fwyafrif pleidleisiau'r Comisiynwyr sydd yn bresennol ac yn pleidleisio.

(2) Os yw niferoedd y pleidleisiau'n gyfartal ar unrhyw gwestiwn mewn unrhyw gyfarfod o'r Comisiynwyr, neu o bwyllgor o'r Comisiynwyr, bydd gan gadeirydd y cyfarfod ail bleidlais neu bleidlais fwrw, y caiff y cadeirydd ei bwrw dros neu yn erbyn y status quo.